PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Aberystwyth University**

# Arfer da, economi, iaith a'r gweithle | Good practice, the economy, language and the workplace

Royles, Elin

*DOI:*
10.20391/4ab8ae7b-e86e-473c-af26-15e0b39d9749

*Publication date:*
2024

*Citation for published version (APA):*
Royles, E. (2024). Arfer da, economi, iaith a'r gweithle | Good practice, the economy, language and the workplace. Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth University. https://doi.org/10.20391/4ab8ae7b-e86e-473c-af26-15e0b39d9749

**Document License**
CC BY

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 21. Jan. 2025

**Arfer da, economi, iaith a'r gweithle**
**Papur Cefndir ar gyfer gweithdai wedi'u trefnu gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth a Wavehill mewn cydweithrediad ag ARFOR II, Medi 2024**
**Elin Royles**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod Rhaglen ARFOR yw datblygu cynlluniau i hybu datblygiad economaidd ar draws siroedd y gorllewin, a thrwy hynny, roi hwb i ragolygon yr iaith Gymraeg. Mae'r pwyslais ar hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlwg yn y ffordd y crynhoir y rhaglen:

> 'Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyrraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol'

Fe'i gwelir hefyd yn Amcan strategol 4:

> 'Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg **– drwy gefnogi defnydd a gweledded y Gymraeg**, annog naws am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.'[1]

1.2 Bwriad gweithgaredd wedi'i drefnu gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth a Wavehill fel rhan o raglen waith tendr yn gysylltiedig â'r rhaglen ARFOR II yw ystyried yn bellach sut mae modd i weithleoedd gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac yn enwedig ar y defnydd o'r Gymraeg.

## 2.0 Ystyried iaith mewn gweithleoedd

2.1 Tra bod gwahanol ffyrdd o ddeall y term 'rheolaeth iaith' (*language management*), mae'n cael ei ddefnyddio ym maes astudiaethau busnes. Yno, y cyd-destun yw'r cynydd yn y gydnabyddiaeth o bwysigrwydd iaith fel rhan o strategaeth fusnes corfforaethau aml-wladol mawr. Maen nhw'n gweithredu ar draws gwahanol wledydd, yn wynebu sefyllfaoedd o amlieithrwydd ac yn penderfynu ar a datblygu polisïau sy'n rheoli'r ieithoedd a ddefnyddir o fewn eu cwmni (Sanden, 2014).

2.2 O'r safbwynt astudiaethau busnes yma, mae rheolaeth iaith corfforaethol (*corporate language management*) yn rheoleiddio'r ieithoedd o fewn cwmni yn fwriadol drwy gynllunio a gweithredu o frig y sefydliad i lawr ar sail gwerthuso anghenion ieithyddol y cwmni (Sanden, 2014: 525). I weithredu ar hyn, fel arfer bydd strategaeth neu bolisi iaith yn cael ei ddatblygu i reoli'r gyfundrefn ieithyddol mewn cwmni.

2.3 Dadleuir bod y penderfyniadau a wneir am ieithoedd yn gallu cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar weithredu'n effeithiol, ar gynhyrchiant ac ar berfformiad cwmni. Ar yr un pryd, gall penderfyniadau ynghylch iaith gael eu heffeithio gan gost, gwariant ac elw. Bydd cwmniau yn aml yn penderfynu ar Saesneg fel yr iaith gorfforaethol gyffredin, ond mae eraill yn annog buddsoddi, trefniadau wedi eu teilwra ar gyfer cwmni a strategaeth iaith sy'n cydnabod amryw ieithoedd yn y gweithle (Sanden, 2016).

[1] Gweler: https://www.rhaglenarfor.cymru/index.html

2.4 Amlinellir y canlynol fel model pedwar cam o reolaeth iaith corfforaethol ym maes astudiaethau busnes (Sanden, 2016):

1. Dadansoddiad anghenion ieithyddol: datblygu gorolwg o sefyllfa ieithyddol gyfredol cwmni, er enghraifft drwy asesu'r sefyllfa sgiliau ieithyddol a cheisio adnabod os yw'r cymwyseddau ieithyddol presennol yn ddigonol i'r dyfodol.
2. Datblygu polisi neu strategaeth iaith: cynllun sy'n ddatganiad am ddefnydd iaith o fewn cwmni ac yn fwriadol yn ceisio rheoli materion ieithyddol.
3. Dulliau gweithredu rheolaeth iaith: gan nad yw polisi iaith yn ddigonol i wireddu'r nod, mae angen gweithgaredd wedi ei gynllunio i ateb anghenion neu nodau ieithyddol cwmni. Mae gofyn am fuddsoddiad amser ac adnoddau dynol i weithredu rhai. Enghreifftiau:
    - Hyfforddiant iaith: Cyrsiau neu hyfforddiant iaith ar gyfer gweithwyr
    - Cyfieithu: Defnydd o gyfieithwyr allanol neu fewnol
    - Atebion technegol neu gyfieithu peirianyddol
    - Recriwtio dewisol: gosod anghenion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol
    - Cyfryngwyr ieithyddol: Manteisio ar weithwyr dwyieithog neu amlieithog er mwyn pontio yn strategol a goresgyn rhwystrau ieithyddol

2.5 Mae'r cyd-destun mewn golwg yn y llenyddiaeth astudiaethau busnes yn wahanol i amgylchiadau rhaglen fel ARFOR oherwydd eu pwyslais ar fusnesau rhyngwladol, ar ieithoedd mwyafrifol ac yn aml ar weithwyr yn dysgu ieithoedd ychwanegol a ddefnyddir mewn gwledydd eraill er mwyn hybu busnes dramor. Ond mae'r llenyddiaeth hon yn ddefnyddiol am y rhesymau canlynol:

- Pwysleisio arwyddocâd polisi iaith mewn gweithleoedd a'r broses o gynllunio iaith o fewn gweithleoedd. Hawlia rhai yn y maes hwn y gall rheolaeth iaith corfforaethol fod yn fwy pwysig a chael effaith ddyfnach na pholisïau llywodraethol (Sanden, 2024).
- Cydnabyddir effaith gweithleoedd ar arferion iaith gweithwyr gan hefyd gydnabod effaith ehangach polisïau cwmniau ar yr iaith o fewn y gymdeithas (Sanden, 2024).
- Mae'r pedwar cam rheolaeth iaith corfforaethol yn amlinellu strwythur i brosesau cynllunio iaith sy'n datblygu yn fwy o norm o fewn gweithleoedd sector breifat.

2.6 Oherwydd y cyd-destun gwahanol mewn gweithleoedd mewn sefyllfa ble mae cyfuniad o iaith/ ieithoedd mwyafrifol a lleiafrifol fel yn sefyllfa ARFOR, ydi'r dulliau gweithredu a amlinellir uchod yn ddigonol i annog defnydd o iaith leiafrifol mewn gweithle? Pa ffactorau neu ymyrraethau eraill sydd angen eu hystyried yn y sefyllfa mwy heriol honno o geisio hybu defnydd o iaith leiafrifol a hynny yn aml yng nghyd-destun ehangach o shifft iaith? Oes sylw digonol yn cael ei roi i ffactorau ymddygiadol a chymdeithasegol ehangach ac i fri'r iaith? Yn sgil cwestiynau hyn, mae'n ddefnyddiol ystyried achos y Fasgeg.

**3.0 Achos y Fasgeg**

3.1 O ran y sefyllfa yn y prif ranbarth lle siaredir y Fasgeg, y Gymuned Ymreolus Fasgeg (*Basque Autonomous Community*), yn economaidd dyma un o'r prif ardaloedd diwydiannol yn Sbaen, ble mae diwydiant yn bwysig, gan gynnnwys diwydiant metal

ysgafn sy'n flaengar yn dechnolegol, awyrenneg ac ynni (van der Worp, Cenoz a Gorter, 2017). Mae'r cyfartaledd incwm yn uwch na chyfartaledd Sbaen. Fel rhan o'r lefel uchel o rymoedd wedi'u datganoli, mae cyfundrefn gyllidol benodol gan Wlad y Basg sy'n golygu bod grymoedd cyllidol a threthiannol eang gan y llywodraeth ranbarthol.

3.2 O ran y sefyllfa'r Fasgeg, tra bod cyfansoddiad Sbaen (1978) yn nodi taw Castilieg ydi unig iaith swyddogol Sbaen, cafodd y Fasgeg a'r Sbaeneg eu cydnabod yn ieithoedd swyddogol yn y Gymuned Ymreolus gan statud 1979 oedd hefyd yn ymrwymo'r llywodraeth ranbarthol a sefydliadau i hyrwyddo'r Fasgeg. Mae'r llywodraeth yn ceisio hyrwyddo defnydd o'r Fasgeg drwy gyfrwng ystod o bolisïau cyhoedds, yn enwedig ym maes addysg, y cyfryngau a'r sector gyhoeddus ond hefyd yn y sector breifat.

3.3 Dros y chwarter canrif diwethaf, gwelwyd ystod o ymdrechion i geisio hyrwyddo'r Fasgeg yn y gweithle yn arbennig mewn ymateb i sefyllfa o lwyddiant mewn cynhyrchu siaradwyr drwy'r system addysg ond diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gweithleoedd. Mae un astudiaeth yn hawlio yn gyffredinol bod y pwyslais ar hyrwyddo'r Fasgeg mewn cwmniau wedi arwain at dderbyn yn gyffredinol y defnydd o'r Fasgeg o ran defnydd iaith mewnol, ond nad yw ddefnydd o'r iaith wedi ei normaleiddio mewn sefyllfaoedd gwaith ffurfiol (van der Worp, Cenoz a Gorter, 2017).

3.4 Polisïau'r Llywodraeth Fasgeg
Mae pwyslais ar ddatblygu cynlluniau iaith o fewn cwmniau a chydnabyddir ansawdd rheolaeth iaith Fasgeg cwmniau drwy'r dystysgrif ragoriaeth Bikain (sy'n golygu rhagoriaeth). Mae'n cael ei ddyfarnu gan Euskalit, y sefydliad wedi'i gefnogi gan y Lywodraeth Fasgeg sy'n hyrwyddo rheolaeth lefel uwch a'r iaith Fasgeg fel rhan o hynny.

3.5 Elfen arall o hyrwyddo'r Fasgeg mewn cwmniau yw cymorth ariannol. Er enghraifft, ers 1997, mae rhaglen *Lanhitz* ('iaith yn y gwaith') yn hyrwyddo'r defnydd o'r Fasgeg o fewn cwmniau fel rhan o'r Cynllun Cyffredinol Hyrwyddo'r Defnydd o'r Fasgeg.

3.6 Fframwaith EME
Fel rhan o hyn, mae fframwaith EME i gefnogi cyrff a chwmnïau i ddatblygu presenoldeb a defnydd iaith. Rhoddir pwyslais ar osod amcanion, adnabod blaenoriaethau o ran y defnydd o'r Fasgeg a'i phresenoldeb yn y gweithle mewn ffordd systematig, glir a syml. Ystyrir trefniadau mewnol a rheolaethol yn bwysig i alluogi defnydd.

3.7 Y bwriad yw bod cwmni yn gweithredu ar sail dwy brif echel (iaith gwasanaeth ac iaith gwaith iaith) ac mewn 6 prif faes[2]:

1.Iaith Gwasanaeth
1. Delwedd y corff: arwyddion, denyddiau marchnata a digwyddiadau cyhoeddus, deunydd digidol.
2. Perthynas gyda chwsmeriaid: yn ysgrifenedig ac ar lafar, e.e. wyneb yn wyneb ac arlein.

[2] Gweler:
https://www.euskadi.eus/contenidos/informacion/eme_koadroa_2016/eu_def/adjuntos/Sailburuaren%20Agindua%20EME%20EU.pdf

2. Iaith Gwaith
3. Iaith cyfathrebu mewnol a dulliau gweithio: arwyddion, dogfennau a phob math o gyfathrebu ysgrifenedig, cyfathrebu llafar mewn cyfarfodydd, sgyrsiau anffurfiol, technoleg ac adnoddau e.e. rhaglenni cyfrifadurol.
4. Rheolaeth pobl: prosesau a deunyddiau anwytho, hyfforddiant a rheoli staff gan gynnwys unrhyw gyfathrebu gyda staff.
5. Perthnasau allanol: yr iaith ddefnyddir gyda chyrff eraill e.e. cyrff llywodaethol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
6. System Reolaethol: gan gynnwys proses systematig ar gyfer datblygu strategaeth iaith, adnoddau digonol i wireddu'r hyn sydd wedi ei benderfynu, adnabod anghenion cwsmeriaid a dinasyddion, creu strwythurau gan gynnwys pwyllgor iaith Basgeg a strwythurau monitro, a phrosiectau i hyrwyddo arweinyddiaeth.

**3.8 Y tu hwnt i'r Llywodraeth**
Mae nifer o brosiectau a datblygiadau yn hyrwyddo'r Fasgeg mewn gweithleoedd, o hyrwyddo arfer da, i annog rhwydweithio a chyfnewid gwybodaeth rhwng cwmnïau. Mae rôl allweddol gan nifer o gwmnïau sy'n gweithredu fel gwasanaethau ymgynghorol proffesiynol ar gynllunio iaith yn y gweithle. Maent yn aml yn arbenigo hefyd mewn gwasanaethau eraill fel llywodraethiant, amrywiaeth a phrif ffrydio cydraddoldeb. Maent yn cefnogi cyrff sector gyhoeddus, cwmniau breifat a chydweithredol mewn llunio, gweithredu a dros amser ddatblygu eu cynlluniau hybu Basgeg. O ganlyniad, mae ganddyn nhw arbenigedd helaeth ym maes cynllunio iaith yn y byd busnes. Yr esiamplau amlycaf yw Emun, Elhuyar, Ahize ac Artez.

3.9 Mae Gwlad y Basg hefyd yn adnabyddus am ei thraddodiad o ddatblygu mentrau cydweithredol a rheiny'n gweithredu ar wahanol raddfeydd, o'r rhwydwaith o gwmniau cydweithredol mawr fel Mondragon, a grwpiau o gwmniau cydweithredol eraill, i fentrau cydweithredol bychain. Yn eu sgil, gwelwyd nid yn unig bwyslais ar ddefnyddio'r Fasgeg yn y gweithle ond cydnabyddiaeth bod cefnogi'r iaith Fasgeg yn y gymdeithas yn fwy yn rhan o gyfrifoldeb cymdeithasol cwmniau nac efallai a welir mewn achosion eraill.

Edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am y datblygiadau hyn yn y gweithdy.

Llyfryddiaeth
Sanden G. R. (2024) 'Corporate Language Management: Insights from Scandinavian Business, cyflwynwyd yn Languages Lanean Kongruesa, 18-19.1.24.
Sanden, G. R. (2014) 'Language Management x 3: A Theory, a Sub-Concept, and a Business Strategy Tool' *Applied Linguistics,* 37, 4, 520-535.
Sanden, G. R. (2016) 'Language: the sharpest tool in the business strategy toolbox' *Corporate Communications: An International Journal,* 21, 3, 274-288.
van der Worp, K., Cenoz, J., Gorter, D. (2017) 'From bilingualism to multilingualism in the workplace: the case of the Basque Autonomous Community' *Language Policy,* 16, 407-432.